**Cwestiynau i'r Cymdeithasau Tai gan Aelodau Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd**

**Gweithredu'r polisi gosod tai a datblygiadau newydd**

1. Allwch chi egluro beth yw eich rôl chi fel cymdeithasau tai mewn perthynas gyda'r polisi gosod tai?
2. Ydych chi yn gweithredu yn unol â Pholisi Gosod Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd bob amser? Os ydych yn gwyro o'r polisi pa mor aml mae hyn yn digwydd a pham?
3. Oes yna ddatblygiadau newydd ar y gweill gan eich cymdeithas?

**Cyfnewid tai**

4. A oes data gan eich cymdeithas dai am y nifer sydd wedi cyfnewid tai yn y 3 blynedd diwethaf a'r lleoliadau cyfnewid? (Managed Moves/House Swaps).
5. Faint o bobl gyda chyswllt lleol sydd wedi cyfnewid tŷ er mwyn symud yn ôl i Wynedd i fyw?

**Cymorth i denantiaid a tan feddiannu**

6. Sut ydych yn rheoli tân feddiannu? Ydy cyfnewid eiddo o ganlyniad i dan feddiannu yn gyffredin?
7. Faint o denantiaid sydd wedi cyfnewid eiddo o ganlyniad i dân feddiannu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
8. Faint o swyddogion cymunedol sydd gan eich cymdeithasau tai er mwyn cynorthwyo tenantiaid ar lawr gwlad?

**Ansawdd tai a gwaith cynnal a chadw**

9. Beth yw ansawdd eich tai yng Ngwynedd a pha gynlluniau sydd ar waith i'w cynnal a'u gwella?
10. Beth yw'r broses o gyflwyno cais am waith atgyweirio?
11. Ydy eich gwasanaeth cynnal a chadw eiddo ar gael yn gyson trwy'r sir ac a yw'r amser aros am atgyweiriadau a thrwsio yn amrywio drwy'r sir?
12. Ar gyfartaledd faint o amser mae rhaid i denant ddisgwyl am gael gwneud gwaith atgyweirio yn eu tŷ?
13. Pa fath o bethau sydd fel arfer yn arwain at oedi cyn gwneud gwaith atgyweirio?

14. Mae nifer o denantiaid yn derbyn talebau digidol ar gyfer talu am beintio ar ôl gwaith trydanol neu atgyweirio ond mae rhai yn cael anhawster eu defnyddio oherwydd diffyg mynediad at y we. Oes posib cyflenwi talebau i'r rhai hynny?
15. Faint o dai hygyrch sydd gan y cymdeithasau tai?
16. Ydych chi'n derbyn nifer o geisiadau i wneud addasiadau er mwyn gwneud tai yn hygyrch?

**Tai gwag a phrynu tai**

17. Faint o dai gwag sydd gan eich cymdeithas dai ar hyn o bryd?
18. Beth yw eich amserlen arferol ar gyfer dod a thŷ gwag yn ôl i ddefnydd?
19. Oes tai wedi eu gwaredu yn ystod y flwyddyn diwethaf?
20. Ydych chi wedi prynu hen dai Cyngor yn y 3 blynedd diwethaf ac a oes bwriad i brynu mwy?
21. Pan fydd tenant yn symud i ofal preswyl neu'n dod yn glaf ysbyty hirdymor, pa broses ac amserlen sy'n cael eu defnyddio i asesu'r tebygolrwydd y byddant yn dychwelyd i'w tenantiaeth tai cymdeithasol, a pha mor hir y mae eiddo fel arfer yn cael eu gadael heb eu meddiannu cyn gwneud penderfyniad ar eu defnydd yn y dyfodol?

**Cyfathrebu a chwynion**

22. Mae cynghorwyr yn derbyn nifer o gwynion gan breswylwyr bod anghysondeb o ran ymateb i gwynion. A oes modd i chi gyflwyno data ynghylch cwynion preswylwyr gan gynnwys y math o gwynion, e.e cyflwr tŷ, gwaith atgyweirio, gwaith argyfwng, sy'n cael eu derbyn, o ba ardal ac amserlen ymateb?
23. Mynegir pryderon wrth gynghorwyr am ymddygiad gwrth gymdeithasol mewn rhai stadau tai. Ydych chi fel cymdeithas wedi sylw ar gynnydd diweddar mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol?
24. Beth yw'r trefniadau ar gyfer delio gyda ymholiadau cynghorwyr pan fo swyddog cyswllt penodedig ar wyliau?